**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | W Evans |
| L S Gibbard | M H Jones | M B Lewis |
| R D Lewis | D W W Thomas | T M White |

hefyd yn bresennol: Cynghorydd P K Jones

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu, Llunio Lleoedd & Threftadaeth |
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Andrew McTaggart | Technegydd Polisi Cynllunio |
| Steve Smith | Arweinydd y Tîm Dylunio Trefol a Chadwraeth |
| Alan Webster | Swyddog Coed |
| Rachel Willis | Prif Gynllunydd, Polisi Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P B Smith a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 64 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd P Lloyd – Eitem 4 ar yr agenda - Canllawiau Cynllunio Atodol Newydd: Canllaw Dylunio AHNE Gŵyr - Diwygiedig (drafft ymgynghori) – personol.

## 65 Canllawiau Cynllunio Atodol Newydd: Canllaw Dylunio AoHNE Gwyr Diwygiedig (Dogfen ddrafft i ymgynghori arno)

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o’r Canllaw Dylunio AHoNE Gŵyr diwygiedig ac amlinellodd fersiwn newydd o'r Canllaw Dylunio y bwriedir iddo ddisodli'r fersiwn bresennol, a cheisiodd gymeradwyaeth yr Aelodau i gynnal ymarfer ymgynghori eang â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar y ddogfen arfaethedig.

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad gweledol manwl a chynhwysfawr i'r Pwyllgor ar y ddogfen ddiwygiedig a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cyflwyniad a'r rhesymau dros y ddogfen ddiwygiedig;
- Newidiadau a diweddariadau yn y fframwaith cynllunio, Polisi Cynllunio Cymru a chyngor technegol ers i'r ddogfen gychwynnol gael ei mabwysiadu;
- Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn 2019;
- Cefndir a chyd-destun y newidiadau arfaethedig;
- Pwysau datblygu ym Mhenrhyn Gŵyr;
- Nodau ac amcanion y polisi diwygiedig;
- Prif newidiadau sylweddol i'r ddogfen newydd gan gynnwys hysbysebion a hysbysebu, canllawiau ar gyfer sialés preswyl a goleuadau awyr dywyll;
- Materion a Heriau Allweddol

Yn dilyn y cyflwyniad helaeth, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau ynghylch y CCA diwygiedig, ac ymatebodd y swyddogion yn unol â hynny.

Amlinellodd a manylodd y swyddogion yr amserlenni arfaethedig ar gyfer yr ymarfer ymgynghori a fyddai'n cynnwys sylw yn y wasg, negeseuon e-bost wedi'u targedu, gwefan, arolygon, holiaduron a chyfeirion nhw at y posibilrwydd o gyfarfodydd a digwyddiadau wyneb-yn-wyneb y byddai'n rhaid iddynt fod yn unol ag unrhyw reoliadau COVID-19.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r CCA drafft (fel sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A yr adroddiad) at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid.

### 66 Canllawiau Cynllunio Atodol Newydd: Datblygu a Bioamrywiaeth a Choed, Coetiroedd a Gwrychoedd (Dogfennau drafft i ymgynghori arnynt)

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o ddwy ddogfen Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft newydd a oedd yn ymwneud â Datblygu a Bioamrywiaeth Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd a cheisiodd gymeradwyaeth yr aelodau i gynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar y ddwy ddogfen.

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad gweledol manwl a chynhwysfawr i'r Pwyllgor unwaith eto ar y ddwy ddogfen ddiwygiedig a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cyflwyniad a'r rhesymau dros y dogfennau diwygiedig;
- Cefndir a chyd-destun y newidiadau arfaethedig;
- Newidiadau eang i'r fframwaith deddfwriaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf;
- Ymrwymiadau corfforaethol i natur a bioamrywiaeth;
- Treftadaeth naturiol a natur unigryw Gŵyr;
- Mae 80% o ardal Cyngor Abertawe yn amgylchedd naturiol;
- Prif ddibenion y CCA a'r ymagwedd ddilyniannol at bedwar prif nod y dogfennau;
- Agwedd cam wrth gam at fioamrywiaeth;
- Ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd coed a'u heffaith ar yr amgylchedd;
- Prif newidiadau sylweddol i'r ddwy ddogfen newydd ;

- Nodau ac amcanion y polisïau diwygiedig;
- Materion a Heriau Allweddol

Anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorydd P K Jones (Hyrwyddwr y Cyngor dros yr Amgylchedd) a siaradodd o blaid y cynigion yn gyffredinol a nododd y byddai'r Panel Craffu ar yr Amgylchedd Naturiol a gadeiriwyd ganddo yn adolygu'r ddwy ddogfen ddiwygiedig ac yn cymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori.

Unwaith eto, yn dilyn y cyflwyniad helaeth, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor amryw o gwestiynau ynghylch y ddau CCA diwygiedig, ac ymatebodd y swyddogion yn unol â hynny.

Unwaith eto, amlinellodd y swyddogion y terfynau amser arfaethedig ar gyfer yr ymarfer ymgynghori a fyddai'n debyg i'r rhai a amlinellwyd yn yr eitem flaenorol.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r ddau CCA drafft (fel sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A-C yr adroddiad) at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.38 pm

**Cadeirydd**